**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

`

# Y CYFANSODDIAD

# a'r

# RHEOLAU SEFYDLOG

**Mabwysiadwyd yng Nghynhadledd 2003**
(diweddaru fersiwn 1996)

# Y CYFANSODDIAD

## I ENW

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.**

## II AELODAETH

Pob eglwys Annibynnol sydd yn dewis perthyn i'r Undeb ac sydd ar restr eglwysi un o Gyfundebau yr Annibynwyr Cymraeg, ynghyd ag aelodau personol.

## III AMCANION

Meithrin ffydd yn Nuw y Tad a thystio i Arglwyddiaeth Crist y Mab, yng ngrym yr Ysbryd Glân drwy:

(a) hybu a chynorthwyo addoliad, tystiolaeth a gwasanaeth yr eglwysi, a chryfhau'r berthynas rhwng yr eglwysi;

(b) fugeilio'r holl eglwysi, yn fwyaf arbennig drwy'r cyfundebau,
  (i) er mwyn cryfhau gweinidogaeth holl bobl Dduw yn yr eglwysi;
  (ii) er mwyn sicrhau gweinidogaeth y Gair a'r Sacramentau ymhlith yr eglwysi a
  (iii) rhyddhau adnoddau priodol i gyflawni'r gwaith hwn;

(c) feithrin partneriaeth ag enwadau ac eglwysi eraill yng Nghymru ac yn fydeang;

(ch) gryfhau ein partneriaeth ag eglwysi oddi fewn i Gyngor y Genhadaeth Fydeang (CWM);

(d) arfer stiwardiaeth Gristnogol ar holl adnoddau'r Undeb, er mwyn hybu cenhadaeth Crist yng Nghymru ac ar draws y byd;

(dd) roi arweiniad i'r eglwysi yn eu hymdrechion o blaid heddwch, cymod a chyfiawnder yng Nghymru ac ar draws y byd, a hyrwyddo dysgeidiaeth Efengyl y Deyrnas ym mywyd unigolion a chenedl.

## IV DYLETSWYDDAU

(i) cynorthwyo gwaith bugeiliol y cyfundebau trwy roi cyhoeddusrwydd i'r holl gyfarpar ac adnoddau sydd gan yr Undeb at wasanaeth yr eglwysi;

(ii) cynorthwyo cyfundebau i drefnu gofalaethau naill ai o fewn yr enwad, neu mewn cydweithrediad ag enwadau eraill;

(iii) cynnal trafodaethau gydag enwadau eraill er mwyn cynorthwyo pob cydweithrediad, a chynllunio'n fwy effeithiol i'r dyfodol er mwyn hybu cenhadaeth Crist;

(iv) sicrhau fod yr angen am weinidogion yn cael sylw cyson gan yr eglwysi a bod ymgeiswyr am y Weinidogaeth yn derbyn pob cefnogaeth angenrheidiol;

(v) bod o gymorth i eglwysi'r Undeb a'u gweinidogion pa bryd bynnag y bo'r gofyn;

(vi) gweithredu er budd gweinidogion sydd wedi ymddeol a gweddwon gweinidogion;

(vii) bod yn enau i leisio barn ar bynciau crefyddol a chymdeithasol yn ôl y gofyn.

# V CYFRYNGAU

## A Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL
## B Y CYNGOR

## A Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL

Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol gan yr Undeb. Bydd yr Undeb yn gyfrifol am unrhyw golled ariannol o gynnal y Cyfarfodydd Blynyddol. Bydd i'r Undeb hefyd dderbyn unrhyw elw ariannol a ddaw o gynnal y cyfarfodydd hyn.

Amcanion: 1 penderfynu polisi;
2 meithrin perthynas yr eglwysi â'i gilydd;
3 meithrin ffydd ein gilydd;
4 meithrin y dystiolaeth Gristnogol i efengyl cariad yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Trefnir: 1 CYNHADLEDD a
2 CYFARFODYDD CYHOEDDUS

### 1 CYNHADLEDD

(a) Corff awdurdod yr Undeb fydd y Gynhadledd;

(b) Aelodaeth:
- (i) un cynrychiolydd o bob eglwys sydd wedi talu ei chyfraniad aelodaeth blynyddol, ynghyd ag aelodau personol;
- (ii) disgwylir i'r eglwysi, yr aelodau personol a'r cyfundebau gyfrannu'n flynyddol yn ôl y graddfeydd a gytunir o bryd i'w gilydd gan y Gynhadledd. Bydd yn bosib i bersonau unigol ymaelodi am oes;
- (iii) bydd gan gynrychiolwyr yr eglwysi a'r aelodau personol yr hawl i ymuno yn holl drafodaethau'r Gynhadledd;
- (iv) bydd hawl gan gynrychiolwyr eglwysi ac aelodau personol i bleidleisio yn y Gynhadledd. Bydd pleidlais cynrychiolwyr yr eglwysi gyda cherdyn lliw yn dynodi tair pleidlais a phleidlais yr aelodau personol gyda cherdyn lliw gwahanol yn dynodi un bleidlais. Ni all neb bleidleisio ar ran mwy nag un eglwys. Bydd hawl gan swyddogion yr Undeb i bleidleisio yn y Gynhadledd.

(c) Gwaith y Gynhadledd fydd:
- (i) cyfarwyddo gwaith y Cyngor a derbyn neu wrthod, neu anfon yn ôl ei adroddiadau a'i argymhellion;
- (ii) penderfynu polisi a gweithgarwch;
- (iii) derbyn amcangyfrifon a mantolenni ariannol yr Undeb; bydd blwyddyn ariannol yr Undeb yn diweddu ar 31 Rhagfyr;
- (iv) ethol cyfreithiwr/ cyfreithwyr ac archwiliwr/archwilwyr;
- (v) ethol tri yn flynyddol o blith cynrychiolwyr yr eglwysi ac aelodau personol yn aelodau o'r Cyngor i wasanaethu am gyfnod o dair blynedd;
- (vi) cyfethol hyd at dri pherson o blith cynrychiolwyr yr eglwysi ac aelodau personol i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am gyfnod o dair blynedd.

**2 CYFARFODYDD CYHOEDDUS**

(a) Cynnal un cyfarfod arbennig i :
   (i) sefydlu'r llywydd newydd;
   (ii) cofláu gweinidogion ac eraill a fu farw;
   (iii) croesawu gweinidogion sy'n newydd yng ngwasanaeth eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg;

(b) Cyfarfod pregethu;

(c) Unrhyw gyfarfodydd eraill y dymunir eu trefnu er mwyn hyrwyddo amcanion y Cyfarfodydd Blynyddol;

(ch) Unrhyw gyfarfodydd a drefnir gan y Cymdeithasau.

**B Y CYNGOR**

Cyferfydd y Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn dri mis o leiaf cyn y Gynhadledd, gyda'r hawl i gynnal cyfarfodydd eraill os bydd galw.

**1. Aelodaeth**

(i) swyddogion yr Undeb: Y Llywydd, yr Is-lywydd, y Cyn-lywydd, Cadeirydd y Cyngor, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Gweithiwr Ieuenctid, y Cyfarwyddwyr Addysg a Hyfforddi, yr Ysgrifennydd Gweinyddol, y Trysorydd, ac unrhyw swyddog arall, llawn-amser neu ran-amser, y penderfyna'r Undeb ei benodi o bryd i'w gilydd;

(ii) tri chynrychiolydd o bob cyfundeb i wasanaethu am gyfnodau o dair blynedd hyd y mae hynny'n bosibl;

(iii) cadeiryddion ac ysgrifenyddion yr Adrannau, i'w hethol am dair blynedd ond gyda'r hawl i'w hail ethol am gyfnod pellach;

(iv) tri wedi eu hethol yn flynyddol gan y Gynhadledd i wasanaethu am gyfnod o dair blynedd;

(v) arbenigwyr wedi eu galw i fynychu'r cyfarfod i drafod unrhyw fater neilltuol.

**2. Gwaith y Cyngor fydd cyfarwyddo bywyd a chenhadaeth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg drwy:**

(i) ystyried a gweithredu ar unrhyw fater a gyflwynir iddo gan y gynhadledd;
(ii) ystyried adroddiadau yr Adrannau;
(iii) llunio penderfyniadau i'w cyflwyno i'r Gynhadledd;
(iv) gwneud penderfyniadau ar wahân i'r Gynhadledd yn ôl y galw;
(v) gweinyddu holl faterion ariannol yr Undeb;
(vi) trefnu Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb;
(vii) cyflwyno i'r Gynhadledd adroddiad blynyddol o'i holl weithrediadau;
(viii) ethol Cadeirydd bob tair blynedd;
(ix) cynnig enw Cyfreithiwr/ Cyfreithwyr ac Archwiliwr/ Archwilwyr i'r Gynhadledd bob blwyddyn;
(x) ethol swyddogion yr Adrannau ar ôl ystyried awgrymiadau'r Pwyllgor Gweinyddol;
(xi) ethol cynrychiolwyr ar gyrff allanol ar ôl ystyried awgrymiadau'r Pwyllgor Gweinyddol.

**3. Yr Adrannau**

(i) gweithreda'r Cyngor trwy ei Adrannau; byddant hwy yn cyfarfod adeg y Cyngor, gyda rhyddid i gyfarfod hefyd ar adegau eraill yn ôl y gofyn.

(ii) etholir aelodau pob Adran o blith aelodau'r Cyngor. Gofynnir i bob Cyfundeb ethol tri chynrychiolydd (i wasanaethu am gyfnodau o dair blynedd hyd y mae hynny'n bosibl), un i wasanaethu ar bob un o'r Adrannau canlynol:

Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang
Ieuenctid
Cyllid

Yn ogystal bydd pob cynrychiolydd yn gwasanaethu ar un o'r canlynol:

Addysg a Chyfathrebu
Yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth
Dinasyddiaeth Gristnogol

(iii) bydd gan bob Adran yr hawl i gyfethol hyd at bump o aelodau ychwanegol i wasanaethu am dair blynedd (ond ni fydd yr aelodau hyn yn aelodau o'r Cyngor),

(iv) bydd hawl gan Adran i ymddiried gwaith i is-bwyllgor, a dau o leiaf o aelodau'r Cyngor arno. Rhoddir hawl i is-bwyllgor i wneud ei drefniadau ei hun, ond disgwylir iddo ddwyn ei adroddiad i'r Adran a'i sefydlodd;

(v) rhaid i bob Adran gyflwyno ei adroddiad yn gyson a chyflawn i'r Cyngor;

(vi) gall unrhyw Adran lunio penderfyniad i'w gyflwyno i ystyriaeth y Cyngor neu'r Gynhadledd;

(vii) gall dwy neu ragor o Adrannau drefnu cyd gyfarfod pan fernir bod hynny'n angenrheidiol neu'n fuddiol;

(viii) bydd gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, yr Ysgrifennydd Gweinyddol, y Trysorydd, y Cyfarwyddwyr Addysg a Hyfforddi, y Gweithiwr Ieuenctid hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd pob Adran. Ni fyddant yn aelodau o is-bwyllgor oni etholir hwy arno.

(ix) dewisir cadeiryddion ac ysgrifenyddion yr Adrannau gan y Cyngor ac eithrio ysgrifenyddion Adrannau A,B ac C.

(x) bydd gan bob Adran gyfrifoldeb i baratoi cyllideb/ cynlluniau ariannol lle bo hynny'n berthnasol.

**Adran A : CENHADAETH A'R EGLWYS FYD-EANG**

**Aelodaeth:**

Un aelod o bob Cyfundeb i'w ddewis gan y Cyfundeb fel un o'i Gynrychiolwyr ar y Cyngor. Cyfetholir hyd at bum person addas. Ymddiriedir y gwaith Gweinyddol i'r Ysgrifennydd Cyffredinol.

**Cyfrifoldebau:**

(i) adnewyddiad yr eglwysi ac efengylu yng Nghymru;

(ii) materion perthnasol i CWM gan gynnwys casglu a dosrannu arian y genhadaeth;

(iii) ystyried a chymeradwyo ymgeiswyr i wasanaethu, yn arferol drwy CWM;

(iv) meithrin perthynas a hybu cydweithio ag eglwysi CWM

(v) meithrin perthynas a hybu cydweithio ag eglwysi ac enwadau eraill yng Nghymru, ac â chyrff cyd-eglwysig yng Nghymru, yng ngweddill Prydain ac Iwerddon ac yn fyd-eang;
(vi) unrhyw faterion perthnasol eraill.

**Adran B: IEUENCTID**

**Aelodaeth:**

Un aelod o bob Cyfundeb i'w ddewis gan y Cyfundeb fel un o'i gynrychiolwyr ar y Cyngor. Cyfetholir hyd at bum person addas.

**Cyfrifoldebau:**

Pob gweithgarwch yn ymwneud â phobl ifanc, gan gynnwys materion cyd-eglwysig a'r cyfrifoldeb o ddosrannu'r arian a ddaw o'r apêl ariannol flynyddol.

**Adran C: CYLLID**

**Aelodaeth:**

Un aelod o bob Cyfundeb i'w ddewis gan y Cyfundeb fel un o'i gynrychiolwyr ar y Cyngor. Cyfetholir hyd at bum person addas. Yn arferol bydd Trysorydd yr Undeb yn gadeirydd yr Adran hon. Yr Ysgrifennydd Gweinyddol fydd yr ysgrifennydd.

**Cyfrifoldebau:**

(i) pob gwaith ynglŷn â'r Drysorfa Gynorthwyol a Phensiynau a Blwydd-daliadau Gweinidogion a Gweddwon Gweinidogion;
(ii) adeiladau, gan gynnwys gweithgarwch y Gronfa;
(iii) Cronfa Parhad y Weinidogaeth;
(iv) gofal am fuddsoddion yr Undeb;
(v) adolygu gwariant holl Adrannau'r Cyngor gan gynnwys Cyllidebau a chynlluniau ariannol;
(vi) ystyried materion cyd-eglwysig perthnasol i'r Adran.

**Adran CH: ADDYSG A CHYFATHREBU**

**Aelodaeth:**

Un aelod o bob Cyfundeb. Cyfetholir i fyny at bump o bersonau addas.

**Cyfrifoldebau:**

(i) dysgu'r Ffydd, gan gynnwys gwaith Cyngor Ysgolion Sul Cymru, ac addysg i blant, ieuenctid ac oedolion mewn cenhadaeth gartref a thramor;
(ii) cyhoeddi;
(iii) cyhoeddusrwydd a chyfathrebu;
(iv) mawl ac addoliad;
(v) materion ynglŷn â hanes yr Annibynwyr;
(vi) ymdrin â materion addysgol cyhoeddus;
(vii) ystyried materion cyd-eglwysig perthnasol i'r Adran;
(viii) unrhyw faterion perthnasol eraill.

**Adran D: YR EGLWYSI A'U GWEINIDOGAETH**

**Aelodaeth:**

Un aelod o bob Cyfundeb. Cyfetholir hyd at bum person addas.

**Cyfrifoldebau:**

(i) y Blwyddiadur a chydnabod gweinidogion;
(ii) cynorthwyo gweinidogion sydd yn newydd yn eu gwaith, ac ystyried trefnu cyrsiau mewn partneriaeth â Choleg yr Annibynwyr Cymraeg;
(iii) ystyried hyfforddi ar gyfer gweinidogaethu, gan gynnwys adroddiad y Cyfarwyddwyr Addysg a Hyfforddi.
(iv) cynnig arweiniad bugeiliol i'r Cyfundebau a'r eglwysi yn ôl y gofyn;
(v) ystyried materion cyd-eglwysig perthnasol i'r Adran;
(vi) unrhyw faterion perthnasol eraill.

**Adran DD: DINASYDDIAETH GRISTNOGOL**

**Aelodaeth:**

Un aelod o bob Cyfundeb. Cyfetholir hyd at bum person addas.

**Cyfrifoldebau:**

(i) y Genedl Gymreig, y Cynulliad Cenedlaethol, a'r Wladwriaeth;
(ii) materion moesol;
(iii) heddwch a materion rhyngwladol eraill;
(iv) Cymorth Cristnogol;
(v) ystyried materion cyd-eglwysig perthnasol i'r Adran;
(vi) unrhyw faterion perthnasol eraill.

**4. Y Pwyllgor Gweinyddol**

Cyferfydd y Pwyllgor Gweinyddol yn ôl y galw ar gyfarwyddyd swyddogion yr Undeb.

**(a) Aelodaeth:**

(i) swyddogion yr Undeb: y Llywydd, yr Is-lywydd, y Cyn-lywydd, Cadeirydd y Cyngor, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Cyfarwyddwyr Addysg a Hyfforddi, yr Ysgrifennydd Gweinyddol, y Trysorydd.
(ii) Cadeiryddion yr Adrannau;
(iii) hyd at dri a etholir gan y Gynhadledd i wasanaethu am dair blynedd;
(iv) arbenigwyr wedi eu galw i fynychu cyfarfod i drafod unrhyw fater neilltuol.

**(b) Swyddogaeth:**

(i) gweinyddu gwaith yr Undeb rhwng cyfarfodydd o'r Gynhadledd a'r Cyngor;
(ii) cyflwyno enwebiadau i'r Cyngor a'r Gynhadledd;
(iii) penodi Golygydd y Tyst;
(iv) ystyried penderfyniadau brys mewn perthynas â'r Gynhadledd yn ôl y galw;
(v) gofalu am faterion ariannol yr Undeb;
(vi) penodi is-bwyllgorau yn ôl y gofyn;
(vii) unrhyw faterion perthnasol eraill.

## VI DULLIAU ETHOL SWYDDOGION YR UNDEB

### A. LLYWYDD

(i) enwebir gan y Cyfundebau, a rhad i'r enwau gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn dyddiad penodedig;

(ii) gofynnir caniatâd y rhai a enwebwyd i osod eu henwau ar docyn pleidleisio, a rhaid i ganiatâd ysgrifenedig gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn dyddiad a nodir. Ni ellir tynnu enw'n ôl ar ôl y dyddiad hwnnw;

(iii) os mai un enw fydd yn aros etholir y Llywydd drwy bleidlais agored yn y Gynhadledd;

(iv) os bydd angen danfonir tocyn pleidleisio i bob eglwys sy'n aelod o'r Undeb ac i bob aelod personol; defnyddir tocynnau lliw, a rhifir y pleidleisiau yn unol â'r rheolau sefydlog;

(v) os bydd mwy na dau enw ar y tocyn rhaid pleidleisio drwy roddi'r ffigurau 1,2,3 ar ôl y nifer a enwir;

(vi) dylid dychwelyd y tocyn pleidleisio i'r Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn y dyddiad a nodir arno;

(vii) cyhoeddir canlyniad y bleidlais yn y Tyst ar y cyfle cyntaf posibl.

### B. CADEIRYDD Y CYNGOR

Etholir am dair blynedd gan y Cyngor i ddechrau ar y gwaith yn y Cyngor yn union ar ôl ei etholiad.

### C. YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

(i) enwebir gan y Cyfundebau, ac etholir y person yn yr un modd ag yr etholir y Llywydd;

(ii) etholir y person ar delerau i'w penderfynu gan y Cyngor ac am dymor o saith mlynedd, ond bydd hawl i'w ail ethol ar ddiwedd y tymor hwn am gyfnod pellach drwy bleidlais yn y Gynhadledd;

(iii) adolygir y swydd a'i natur o leiaf flwyddyn cyn diwedd y cyfnod penodedig, gan ystyried unrhyw ofynion newydd.

### CH. YSGRIFENNYDD GWEINYDDOL

(i) hysbysebir y swydd a gwahoddir ymgeiswyr amdani*;*

(ii) apwyntir y person ar delerau i'w penderfynu gan y Cyngor*;*

(iii) adolygir y swydd a'i natur o leiaf flwyddyn cyn diwedd y cyfnod penodedig, gan ystyried unrhyw ofynion newydd

### D. GWEITHIWR IEUENCTID

(i) hysbysebir y swydd a gwahoddir ymgeiswyr amdani;

(ii) apwyntir y Gweithiwr Ieuenctid ar delerau i'w penderfynu gan y Cyngor;

(iii) adolygir y swydd a'i natur o leiaf flwyddyn cyn diwedd y cyfnod penodedig, gan ystyried unrhyw ofynion newydd.

### DD. CYFARWYDDWYR ADDYSG LLEYG

Penodir ar y cyd â Choleg yr Annibynwyr Cymraeg drwy batrwm ac ar delerau i'w cytuno o bryd i'w gilydd.

**E. TRYSORYDD**

(i) enwebir gan y Cyfundebau, ac etholir y person yn yr un modd ag yr etholir y Llywydd;

(ii) etholir y person am saith mlynedd a dewisir olynydd blwyddyn cyn terfyn y tymor, ond bydd rhyddid i ail ethol drwy bleidlais yn y Gynhadledd.

Yn ychwanegol at Swyddogion yr Undeb etholir Cyfreithiwr/ Cyfreithwyr yn flynyddol gan y Gynhadledd ar gymeradwyaeth y Cyngor.

Etholir Archwiliwr/ Archwilwyr yn flynyddol gan Gynhadledd ar gymeradwyaeth y Cyngor.

## VII NEWID Y CYFANSODDIAD

Ni ellir newid y Cyfansoddiad hwn nac ychwanegu ato, ond yn unol â'r rheolau a ganlyn:

(a) rhaid anfon rhybudd o unrhyw gyfnewidiadau neu ychwanegiad o leiaf chwech wythnos cyn y Cyfarfodydd Blynyddol fel y gellir ei gyhoeddi yn y Gynhadledd y flwyddyn honno;

(b) caiff y newid ei ystyried gan y Gynhadledd y flwyddyn ddilynol;

(c) cyn ei fabwysiadu rhaid wrth fwyafrif o ddwy ran o dair o'r pleidleisiau. Rhifir y pleidleisiau yn unol â Rheol 10 yn y Rheolau Sefydlog.

# RHEOLAU SEFYDLOG

1. Bod rhybudd o Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb ac Adroddiad y Cyngor a'r adrannau i'w hanfon i bob aelod o leiaf ddeng niwrnod cyn y cyfarfodydd.

2. Apwyntir Pwyllgor Llywio i roi cyfarwyddyd cyffredinol i'r Llywydd ac i reoli ynglŷn â derbyn penderfyniadau a materion cyffelyb. Awgrymir y canlynol fel aelodau'r Pwyllgor Llywio:
   (a) Cyn-lywydd, Llywydd ac Is-lywydd yr Undeb a'r Ysgrifennydd Cyffredinol;
   (b) Dau aelod ychwanegol i'w hethol gan y Gynhadledd am gyfnod o dair blynedd. Gellir gwahodd y Pwyllgor Gweinyddol i awgrymu enwau;
   (c) Cadeirydd, nad yw'n un o Swyddogion yr Undeb, i'w ethol gan y Cyngor am gyfnod o dair blynedd.

3. Rhaid i rybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd, gyrraedd Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb o leiaf chwech wythnos cyn y Cyfarfodydd Blynyddol.

4. (a) Cyflwynir penderfyniad i'r Gynhadledd gan ei gynigydd a'i eilydd;
   (b) Pe digwyddai i gynigydd ac / neu eilydd, oherwydd amgylchiadau anorfod, fethu cyflwyno eu penderfyniad i'r Gynhadledd, disgwylir iddynt hysbysu'r Ysgrifennydd Cyffredinol o hynny, ac mewn ymgynghoriad ag ef drefnu i eraill gymryd eu lle. Onide, ni chyflwynir eu penderfyniad i'r Gynhadledd.

5. Ni fydd hawl gan neb i gynnig nac i eilio penderfyniad na gwelliant heblaw ei fod yn gynrychiolydd eglwys neu yn aelod personol. Oni fydd yn gynrychiolydd eglwys, yn aelod personol neu yn un o swyddogion yr Undeb ni fydd ganddo'r hawl i bleidleisio.

6. Bydd hawl cynnig penderfyniad brys ar faterion a gyfyd yn ystod y chwech wythnos o flaen y Gynhadledd. Rhaid i bob penderfyniad o'r fath, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd, gael ei gyflwyno o flaen llaw i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, ac fe'i rhoddir gerbron y Gynhadledd gyda chaniatâd y Llywydd mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Llywio.

7. Os bydd mwy nag un penderfyniad ar yr un pwnc wedi dod i law rhoddir rhyddid i'r Pwyllgor Llywio, drwy ymgynghoriad â phob cynigydd ac eilydd, benderfynu sut mae gweithredu.

8. Bydd hawl i gynnig gwelliant (gyda chynigydd ac eilydd) i unrhyw benderfyniad drwy ychwanegu neu hepgor geiriau neu'r ddau, ond ni fydd unrhyw welliant mewn trefn os bydd yn cyflwyno mater amherthnasol neu yn gwrth-ddweud y cynnig. Dylai pob gwelliant fod yn ysgrifenedig a dylid delio ag un gwelliant cyn caniatáu cyflwyno gwelliant pellach.

9. Bydd hawl cynnig penderfyniad newydd ar fater sydd eisoes gerbron y Gynhadledd (a hynny yn unig) gyda chaniatâd y Llywydd. Rhaid i benderfyniad o'r fath gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyffredinol.

10. Penderfynir materion trwy bleidlais agored y mwyafrif o'r aelodau a'r cynrychiolwyr. Rhoddir tair pleidlais i gynrychiolwyr yr eglwysi (un cynrychiolydd i bob eglwys) ac un bleidlais i bob aelod personol ac i swyddogion yr Undeb. Ni fydd hawl gan neb i bleidleisio ar ran eglwys nad yw yn aelod ohoni neu yn weinidog iddi. Ni all neb bleidleisio ar ran mwy nag un eglwys.
    Ni wahaniaethir rhwng cynrychiolwyr eglwysi ac aelodau personol wrth bleidleisio ag eithrio bod y bleidlais yn rhanedig. Pan ddigwydd hynny, rhifir pleidleisiau cynrychiolwyr yr eglwysi yn gyntaf (dros ac yn erbyn unrhyw gynnig) ac ar ôl hynny rhifir y pleidleisiau eraill (dros ac yn erbyn unrhyw gynnig). Gall ugain o danysgrifwyr / cynrychiolwyr hawlio balot. Bydd y Gynhadledd yn dewis hyd at bedwar person i rifo'r pleidleisiau.

11. Caniateir pum munud i gynigydd penderfyniad a thair munud i eilydd a phob siaradwr arall. Ni chaniateir i neb draethu ar fater fwy nag unwaith heb ganiatâd y Llywydd, ond i gywiro camsyniadau neu ar fater o drefn. Bydd hawl gan y cynigydd i ateb ar derfyn y drafodaeth.

12. Bydd hawl gan aelod i godi pwynt o drefn (sef, unrhyw fater sy'n anghyson â'r rheolau sefydlog hyn). Pan wneir hynny rhaid i bwy bynnag sy'n annerch y Gynhadledd dewi nes i'r Llywydd reoli ynglŷn â'r pwynt o drefn. Bydd dyfarniad y Llywydd yn derfynol ac ni chaniateir trafodaeth.

13. Gellir cynnig ac eilio ei bod yn bryd cyflwyno mater i bleidlais, ond heb ymhelaethu.

14. Bydd barn y Llywydd ynglŷn â gweithredu'r rheolau yma yn derfynol.

15. Gellir penderfynu rhoddi'r rheolau hyn heibio am y tro ar sail dwy ran o dair o'r pleidleisiau. Rhifir y pleidleisiau yn ôl Rheol 10.


CYFARFODYDD BLYNYDDOL
Y CYNGOR A'I BWYLLGOR GWEINYDDOL
CENHADAETH A'R EGLWYS FYD-EANG
CYLLID
ADDYSG A CHYFATHREBU
IEUENCTID
YR EGLWYSI A'U GWEINIDO-GAETH
DINASYDDIAETH GRISTNOGOL